Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad Monitro

Ionawr 2022

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE 2

3. Ymwahanu trefniadau'r DU a'r UE 4

4. Deddf Marchnad Fewnol y DU 5

5. Fframweithiau cyffredin 6

6. Cysylltiadau rhynglywodraethol 6

7. Deddfwriaeth 7

8. Y cyfansoddiad 9

9. Diwygio'r Senedd 10

10. Cyfiawnder 10

1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gylch gwaith helaeth sy'n ymwneud ag ystod eang o feysydd. Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ac unrhyw gamau y mae'n dymuno eu cymryd mewn ymateb. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi i roi gwybod i randdeiliaid am rai o'r materion syy mae'r Pwyllgor wrthi'n eu hystyried ar hyn o bryd.

Mae geirfa o dermau allweddol wedi'i chynnwys fel Atodiad.

2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

Negodwr Brexit y DU, yr Arglwydd David Frost, yn ymddiswyddo a'r Ysgrifennydd Tramor, Liz Truss, yn cymryd ei le. Ymddiswyddodd yr Arlgwydd David Frost ar 18 Rhagfyr 2021 a chafodd ei gyfrifoldebau eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Tramor, Liz Truss, a'r Aelod Seneddol Chris Heaton-Harris, fel Gweinidog Ewrop sy'n gyfrifol am y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, Ewrop, Gibraltar a Rwsia.

Ffrainc yn cymryd llywyddiaeth Cyngor yr UE ac yn gosod cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar agenda'r cyfarfod cyntaf. Bu arweinwyr 27 Aelod-wladwriaeth yr UE yn trafod materion gyda Phrotocol Gogledd Iwerddon o'r Cytundeb Ymadael a hawliau dinasyddion ynghyd â'r 'heriau' sydd i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar 25 Ionawr. Soniwyd yn arbennig am bysgodfeydd a chystadleuaeth deg, sy'n cael ei 'fonitro'n ofalus'. Ar 19 Ionawr, galwodd Arlywydd Ffrainc, Emmanuel Macron, i'r UE a'r DU ddod o hyd i 'lwybr ymddiriedaeth' yn Senedd Ewrop.

Mae'r materion yn ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon yn dal i fod heb eu datrys ac mae sbarduno Erthygl 16 yn opsiwn o hyd. Cyfarfu Liz Truss ac Is-arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Maroš Šefčovič, yn rheolaidd ym mis Ionawr ac ni fu unrhyw gynnydd i adrodd arno ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Cytunodd yr arweinwyr i ddwysáu'r trafodaethau rhwng swyddogion ac i alw cyfarfod o Gydbwyllgor y Cytundeb Ymadael ym mis Chwefror. Nid yw Llywodraeth Cymru fel arfer yn mynychu. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gais i fynychu pan drafodir materion yn ymwneud â'r Protocol a allai effeithio ar borthladdoedd Cymru ond nid oedd Llywodraeth y DU am ganiatáu hyn.

Erys y posibilrwydd o sbarduno Erthygl 16. Mae hyn yn caniatáu cymryd mesurau diogelu os yw'r Protocol yn arwain at rai anawsterau, neu at ddargyfeiriadau masnach. Mae erthygl gan Ymchwil y Senedd yn egluro sut y gallai hyn effeithio ar Gymru a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae canllaw cyflym ar Erthygl 16 hefyd ar gael.

Mae materion yn ymwneud â hawliau dinasyddion yn parhau oherwydd dehongliadau gwahanol o gytuniadau rhwng y DU a'r UE. Mae'r UE yn parhau i bryderu ynghylch y gwahanol statws a roddir i ddinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yn y DU a'r graddau y mae eu hawliau'n cael eu hamddiffyn. Mae Awdurdod Monitro Annibynnol newydd y DU, sy'n gyfrifol am fonitro hawliau dinasyddion Ewropeaidd ar ôl Brexit, hefyd wedi cychwyn achos adolygiad barnwrol yn erbyn Llywodraeth y DU. Mae'r Awdurdod Monitro Annibynnol yn ystyried bod dehongliad Llywodraeth y DU o'r Cytundeb Ymadael a chytundebau hawliau dinasyddion perthnasol eraill gyda'r UE a gwledydd Ewropeaidd eraill yn anghyfreithlon.

Fe wnaeth Ymchwil y Senedd gyhoeddi dadansoddiad o'r ystadegau diweddaraf ar 20 Ionawr, ac mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn monitro a chyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar y mater hwn.

Rhagor o wybodaeth yn egluro sut mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys mwy o eglurder ynghylch rôl Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

Crëwyd dros 30 o fforymau newydd rhwng y DU a'r UE gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael, ac mae llawer ohonynt yn trafod ac yn gwneud penderfyniadau mewn meysydd datganoledig neu mewn meysydd sy'n effeithio ar Gymru. Canllaw newydd Ymchwil y Senedd yn esbonio fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi mynychu'r rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r cyfarfodydd mewn meysydd datganoledig, megis ar gaffael

cyhoeddus, fel y gwelir mewn dadansoddiad a gynhaliwyd gan Ymchwil y Senedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn anhapus gyda'i statws yn nau brif bwyllgor y cytundebau. Cadarnhaodd y Prif Weinidog fod statws Llywodraeth Cymru yng Nghyngor Partneriaeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sef sefyll ar yr ymylon, yn parhau heb ei newid er gwaethaf protestiadau gan Weinidog yr Economi, Vaughan Gething, i Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi gwrthod cais Llywodraeth Cymru i fynychu Cydbwyllgor y Cytundeb Ymadael pan drafodir materion yn ymwneud â Gogledd Iwerddon, o ystyried eu goblygiadau i borthladdoedd Cymru.

Cynrychiolydd Ewropeaidd newydd wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cyn-Aelod o Senedd Ewrop, Derek Vaughan, yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru yn Ewrop, gan gynnwys ymgysylltu â gwleidyddion a swyddogion yn sefydliadau'r UE a hybu agenda polisi Llywodraeth Cymru yn yr UE.

Mae deddfwrfeydd datganoledig yn gobeithio anfon arsylwyr i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. fel rhan o Ddirprwyaeth Senedd y DU, yn amodol ar gytundeb Senedd Ewrop. Cafodd dirprwyaeth y DU ei chyhoeddi ar 26 Ionawr ac mae'n cynnwys 21 Aelod Seneddol a 14 aelod o Dŷ'r Arglwyddi.

Newyddion arall:

- Y DU yn gorffen trefniadau pysgodfeydd 2022 gyda'r UE, Norwy ac eraill. Llywodraeth Cymru yn ffurfio rhan o ddirprwyaeth y DU. Gallwch ddarllen mwy am drefniadau pysgodfeydd y DU-UE yng nghanllaw newydd Ymchwil y Senedd.
- Mae Rhaglen Gyfnewid Dysgu Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn lansio ddechrau mis Chwefror. Dyma raglen ddysgu newydd Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit. Cynhaliwyd pleidlais ar-lein i benderfynu ar ei enw newydd. Gallai pleidleiswyr ddewis rhwng Amdani, Ennyn neu Taith.

3. Ymwahanu trefniadau'r DU a'r UE

Ym mis Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU adolygiad o sylwedd a statws cyfreithiol cyfraith yr UE a ddargedwir. Mewn datganiad ar 9 Rhagfyr, nododd

yr Arglwydd David Frost y byddai'r adolygiad yn ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- ystyried a ellid diwygio neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir drwy 'broses garlam';
- sicrhau na fydd yr hawliau sy'n deillio o gyfraith y DU 'yn cael eu drysu neu'n gorgyffwrdd' â hawliau sy'n deillio o'r UE;
- dileu goruchafiaeth cyfraith yr UE a ddargedwir dros gyfraith ddomestig a wnaed cyn diwedd y cyfnod pontio; ac
- a ddylai llysoedd y DU ddehongli cyfraith yr UE a ddargedwir yn unol ag egwyddorion cyffredinol cyfraith neu egwyddorion yr UE yng nghyfraith y DU, a rôl cyfraith achosion yr UE.

Nid yw'n glir i ba raddau (os o gwbl) y mae'r adolygiad yn berthnasol i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, nac a ymgynghorir â'r llywodraethau datganoledig ar waith a wneir drwy'r adolygiad.

4. Deddf Marchnad Fewnol y DU

Ymgynghorodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar ei gynllun blynyddol ar gyfer 2022 i 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi gwybodaeth am sefydlu Swyddfa'r Farchnad Fewnol.

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi ym mis Tachwedd, dywedodd Uwch-gyfarwyddwr Swyddfa'r Farchnad Fewnol y byddai'n llunio adroddiad cychwynnol ar gyflwr marchnad fewnol y DU yng ngwanwyn y flwyddyn hon.

Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Senedd yr Alban wedi parhau i gymryd tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i Farchnad Fewnol y DU. Cafodd Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban 17 o ymatebion i'w alwad am sylwadau fel rhan o'i ymchwiliad,

Dechreuodd y Pwyllgor ei sesiynau tystiolaeth lafar hefyd, gan glywed gan Gadeirydd interim yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a dau gyfarwyddwr Swyddfa'r Farchnad Fewnol, ar 13 Ionawr 2022. Yn y sesiwn hon, dywedodd cyfarwyddwyr Swyddfa'r Farchnad Fewnol er nad oedd y Swyddfa wedi cael unrhyw geisiadau am gyngor eto, y norm fyddai rhannu cyngor rhwng llywodraethau os yn bosibl.

Roedd adolygiad barnwrol Llywodraeth Cymru yn herio Deddf Marchnad Fewnol y DU i fod i ymddangos gerbron y Llys Apêl ar 18 Ionawr 2022. Mae dyfarniad yn debygol o gael ei gyhoeddi yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.

5. Fframweithiau cyffredin

Mae'r DU a'r llywodraethau datganoledig yn y broses o gyhoeddi fframweithiau cyffredin at ddibenion craffu seneddol. Ym mis Tachwedd, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Senedd fod y llywodraethau wedi dod i gytundeb ar faterion trawsbynciol wrth drafod fframweithiau cyffredin.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU:

- broses i lywodraethau gytuno ar faterion i beidio eu cynnwys yn Neddf Marchnad Fewnol y DU mewn meysydd fframwaith cyffredin; a
- diddymiad pwerau Llywodraeth y DU yn adran 12 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i 'rewi' cymhwysedd datganoledig i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir.

Yn y Chweched Senedd hyd yma, mae gan y llywodraethau fframweithiau dros dro ar gyfer craffu ar:

- caffael cyhoeddus
- taliadau hwyr (trafodion masnachol)
- sylweddau ymbelydrol
- diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd
- diogelwch gwaed ac ansawdd
- organau, meinweoedd a chelloedd

Mae disgwyl i ragor o fframweithiau cyffredin gael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf.

6. Cysylltiadau rhynglywodraethol

Daeth Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i gytundeb ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Roedd casgliadau'r adolygiad **yn cynnwys newidiadau i drefniadau ar gyfer rheoli cysylltiadau rhynglywodraethol yn y DU, gan gynnwys:**

- disodli'r Cydbwyllgor Gweinidogion gyda thair haen newydd ar gyfer ymgysylltu: grwpiau rhyngweinidogol ar lefel portffolio, Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol sy'n goruchwylio materion trawsbynciol (gan gynnwys fframweithiau cyffredin a marchnad fewnol y DU), a Phrif Weinidog a Phenaethiaid y Cyngor Llywodraethau Datganoledig ;
- disodli Pwyllgor Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid gyda'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol Cyllid;
- cynnal cyfarfodydd rhyngweinidogol yn fwy rheolaidd a chylchdroi cadeiryddion a lleoliadau cyfarfodydd rhwng y llywodraethau;
- sefydlu Ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol sy'n atebol i'r Cyngor i ddarparu cymorth gweinyddol;
- pennu proses newydd ar gyfer datrys anghydfodau, gan gynnwys gosod meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio anghydfodau; gwneud darpariaeth i gyfarfodydd datrys anghydfodau gael eu cadeirio gan berson nad yw'n barti i'r anghydfod; a mynnu bod cyngor trydydd parti yn cael ei geisio; a
- chytuno i 'adrodd estynedig' i seneddau ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol.

Croesawodd y Prif Weinidog y cytundeb.

Cynhaliodd y Senedd ddadl ar y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliad rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru ar 15 Rhagfyr.

7. Deddfwriaeth

7.1. Cydsyniad Deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer 17 o filiau'r DU yn y Senedd hon. Parhaodd y Senedd i ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol a phleidleisio ar gynigion cydsynio. Pleidleisiodd yr Aelodau i wrthod cydsynio i rannau o Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ar 18 Ionawr.

Mae'r tabl hwn yn crynhoi safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol	A yw Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r Senedd gydsynio?
Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)	Ydi
Bil Diogelwch Adeiladau	Ydi
Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol	Ydi
Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16	Ydi
Bil yr Asiantaeth Ymchwil A Dyfeisio Blaengar	Ydi
Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)	Ydi
Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)	Ydi *
Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd	Yn rhannol
Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau	Nac ydi
Bil Cymwysterau Proffesiynol	Nac ydi
Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau	Nac ydi
Y Bil Iechyd a Gofal	Nac ydi
Y Bil Etholiadau	Nac ydi
Y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws)	Nac ydi
	**yn amodol ar drafodaethau pellach*

Cynhaliodd y Senedd ddadl ynghylch cynnig ar y broses cydsyniad deddfwriaethol ar 15 Rhagfyr.

Yn Senedd y DU, parhaodd dull Llywodraeth y DU o basio deddfwriaeth o bwys cyfansoddiadol i fod yn destun beirniadaeth. Cafodd Llywodraeth y DU ei threchu yn Nhŷ'r Arglwyddi mewn perthynas â darpariaethau ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd.

Beirniadodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol yn Nhŷ'r Cyffredin ddull y Llywodraeth â'r Bil Etholiadau, gan gynnwys darpariaethau i gyflwyno gofynion i ddangos cerdyn adnabod pleidleisiwr mewn etholiadau a gadwyd yn ôl.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi a'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol adroddiadau yn beirniadu dull Llywodraeth y DU o ddirprwyo pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol.

7.2. COVID-19

Clywodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol Senedd yr Alban dystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i'r defnydd a wnaed o'r weithdrefn gadarnhaol yn ystod pandemig COVID-19. Yn yr ymchwiliad, clywyd tystiolaeth gan Lywodraeth yr Alban ar 11 Ionawr.

8. Y cyfansoddiad

Cyhoeddi aelodaeth a chynnal cyfarfod cyntaf y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol aelodaeth y Comisiwn ar 16 Tachwedd. Cafodd rhestr lawn o'r aelodau ynghyd â bywgraffiadau byr ei chyhoeddi hefyd. Cynhaliodd y Comisiwn ei gyfarfod cyntaf ar 25 Tachwedd, gyda'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol yn bresennol.

Ym mis Ionawr, ysgrifennodd cyd-gadeirydd y Comisiwn, yr Athro Laura McAllister, fod gan waith y Comisiwn 'drwydded i fod yn radical', a bydd yn 'archwilio opsiynau ar gyfer llywodraethu Cymru fel cenedl o fewn y DU bresennol, a hefyd yr opsiynau ar gyfer dyfodol i Gymru y tu allan i'r Undeb.'

Disgwylir i'r Comisiwn baratoi adroddiad interim erbyn diwedd 2022, a disgwylir cyhoeddi adroddiad llawn gydag argymhellion erbyn diwedd 2023.

Mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi wedi cyhoeddi ei adroddiad ar ddyfodol yr Undeb. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, 'Respect and Co-operation: Building a Stronger Union for the 21st century', ar 20 Ionawr 2022. Roedd yr adroddiad yn dadlau y byddai pob cenedl yn y Deyrnas Unedig 'yn llai pe bai'r Undeb yn peidio â bod.'

Fodd bynnag, dadleuodd y Pwyllgor hefyd 'bod llai a llai o gydlyniad cyffredinol mewn trefniadau cyfansoddiadol, a bod methiant yn arbennig i ddatblygu ffurfiau modern o lywodraethu ar y cyd, a bod hyn wedi tanseilio cryfder yr Undeb.'

9. Diwygio'r Senedd

Mae Pwyllgor Diwygio'r Senedd wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf. Yn dilyn ei greu ar 6 Hydref 2021, mae'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf ar 3 Tachwedd. Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor i weithio drwy dri cham yn ei ymchwiliad:

- cam un: nodi meysydd lle mae tir cyffredin rhwng safbwyntiau polisi pleidiau gwleidyddol ar ddiwygio'r Senedd, neu'r posibilrwydd o sefydlu tir cyffredin;
- cam dau: casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen mewn perthynas â'r meysydd hynny o dir cyffredin i helpu'r Pwyllgor ddatblygu cyfarwyddiadau polisi a
- cham tri: datblygu argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a gyhoeddodd ei adroddiad ym mis Medi 2020. Ymhlith yr argymhellion hyn roedd deddfu i gynyddu maint y Senedd i rhwng 80 a 90 o Aelodau, a chyflwyno system etholiadol y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV).

Bydd y Pwyllgor Diben Arbennig yn amcanu i wneud argymhellion erbyn 31 Mai 2022 ar gyfer cyfarwyddiadau polisi i lywio Bil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd.

10. Cyfiawnder

10.1. Llywodraeth Cymru

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi 'rhaglen yn ymwneud â materion cyfiawnder cymdeithasol a datganoli cyfiawnder ynghyd â strategaeth yn y gwanwyn'. Cafwyd tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder i'r Pwyllgor ar 17 Ionawr. Roedd hyn yn dilyn gohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Phrif Weinidog Cymru ar ddyraniadau ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â chyfiawnder yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23.

Ym mis Tachwedd, rhoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar waith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder troseddol, gan gynnwys y cynnydd sydd wedi'i wneud ar y glasbrintiau ar gyfer troseddwyr benywaidd a chyfiawnder ieuenctid.

Cyfarfu Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar Gyfiawnder ar 7 Hydref. Trafododd yr Is-bwyllgor hygyrchedd cyfraith Cymru; prosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru; a dechrau cynllun peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghaerdydd.

10.2. Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n ymgynghori ar gynigion i ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998

Yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol, mae Llywodraeth y DU yn ceisio sylwadau ar newidiadau i'r Ddeddf hyd nes 8 Mawrth.

Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol fod gan Lywodraeth Cymru bryderon sylweddol am rai o'r cynigion yn yr ymgynghoriad.

Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol y dylid cynyddu'r cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol i lefel flynyddol sydd o leiaf 15% yn uwch na'r lefelau presennol.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried casgliadau'r adolygiad a disgwylir iddi gyhoeddi ei hymateb erbyn diwedd mis Mawrth.

Croesawodd y Cwnsler Cyffredinol gasgliadau'r adolygiad a galwodd am fwy o arian ar gyfer cymorth cyfreithiol.

10.3. Tribiwnlysoedd Cymru

Cyflwynodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ar ei brosiect ar Dribiwnlysoedd Cymru ym mis Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn argymell:

- disodli'r tribiwnlysoedd Cymreig presennol gyda Thribiwnlys Haen Gyntaf unedig i Gymru, i'w rannu'n siambrau;
- dod â Thribiwnlys Prisio Cymru a gwaith paneli apelio gwaharddiadau ysgol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf;

- creu Tribiwnlys Apêl i Gymru;
- creu pwyllgor newydd ar weithdrefnau tribiwnlysoedd i adolygu a diweddaru'r rheolau gweithdrefnol;
- creu Gwasanaeth Gweinyddu Tribiwnlysoedd newydd i Gymru fel adran anweinidogol gyda rôl gynyddol i farnwyr, i gymryd lle Uned Tribiwnlysoedd Cymru fel ag y mae ar hyn o bryd;
- gosod dyletswydd statudol newydd ar Weinidogion Cymru a phawb sy'n gyfrifol am weinyddu tribiwnlysoedd i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd.

Croesawodd y Cwnsler Cyffredinol argymhellion Comisiwn y Gyfraith, gan ddweud eu bod yn 'mynd yn bell i greu'r gallu i ddeddfwriaeth Gymreig gael ei gorfodi drwy sefydliadau Cymreig'.

Cynhaliodd y Senedd ddadl ar drydydd adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar 23 Tachwedd.

Atodiad: Geirfa

Fframwaith ar ôl Brexit: termau allweddol

Rhwymedigaethau rhyngwladol		Dyletswyddau ac ymrwymiadau rhyngwladol y DU
Cytundebau masnach		Sefydlu trefniadau masnachu newydd rhwng y DU a gwledydd eraill
Cytundebau rhyngwladol		Cytundebau rhwng y DU a gwledydd neu sefydliadau eraill
Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE		Sefydlu'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE
Cytundeb Ymadael y DU a'r UE		Gosod telerau ymadawiad y DU o'r UE
Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon		Rhan o'r Cytundeb Ymadael i osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon
Deddf yr UE (Ymadael) 2018		Trosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig, yn atal deddfau newydd yr UE rhag cael effaith awtomatig yn y DU ac yn rhoi pwerau i Weinidogion gywiro'r llyfr statud ar ôl ymadael â'r UE
Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020		Gweithredu'r Cytundeb Ymadael
Deddf yr UE (y berthynas yn y dyfodol) 2020		Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu
Deddf Marchnad Fewnol 2020		Sefydlu rheolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau ledled y DU
Fframweithiau Cyffredin		Sefydlu fframweithiau ledled y DU ar gyfer rhai meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol gan yr UE
Gweithredu rheoliadau		Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i weithredu'r trefniadau newydd
Cywiro rheoliadau		Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i sicrhau bod deddfau'r UE a ddargedwir ar ôl ymadael â'r UE yn ymarferol mewn cyd-destun domestig